

2019 Rhif (Cy.)

2019 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A470
(Storey Arms, Powys) (Terfyn
Cyflymder 30 mya Rhan-amser
Dros Dro) 2019

The A470 Trunk Road (Storey
Arms, Powys) (Temporary Part-
time 30 mph Speed Limit) Order
2019

Gwnaed 1 Ebrill 2019
Yn dod i rym 6 Ebrill 2019

Made 1 April 2019
Coming into force 6 April 2019

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygrwydd o berygl i'r cyhoedd.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A470 Trunk Road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be restricted because of the likelihood of danger to the public.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Storey Arms, Powys) (Terfyn Cyflymder 30 mya Rhan-amser Dros Dro) 2019 a daw i rym ar 6 Ebrill 2019.

1. The title of this Order is the A470 Trunk Road (Storey Arms, Powys) (Temporary Part-time 30 mph Speed Limit) Order 2019 and it comes into force on 6 April 2019.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2); a
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2); and
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Trosedd Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddau a'r Llysoedd 2013 (p.22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20).

(2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A470 Caerdydd i Langurig;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd yn Storey Arms, Powys sy'n ymestyn o bwynt 800 metr i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r A4059 hyd at bwynt 600 metr i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r fynedfa orllewinol i Ganolfan Storey Arms.

Cymhwys

4.—(1) Nid yw'r cyfyngiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig gweithredol yn ei dangos.

(2) Nid yw unrhyw terfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Atal Dros Dro

5. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn o'r gefnffordd wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

1 Ebrill 2019

Richard Morgan

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” means the A470 Cardiff to Llangurig Trunk Road.

Restriction

3. No person may drive any motor vehicle at a speed exceeding 30 miles per hour on the length of the trunk road at Storey Arms, Powys that extends from a point 800 metres north of the centre-point of its junction with the A4059 to a point 600 metres west of the centre-point of its junction with the western access to Storey Arms Centre.

Application

4.—(1) The restriction in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by activated traffic signs.

(2) No speed limit imposed by this Order applies to an exempted vehicle.

Suspensions

5. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the length of the trunk road are suspended during such times as the restriction specified in article 3 is in operation.

Duration of this Order

6. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

1 April 2019

Richard Morgan

Head of Planning, Asset Management & Standards
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470
(STOREY ARMS, POWYS) (TERFYN
CYFLYMDER 30 MYA RHAN-AMSER DROS
DRO) 2019**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd ger Canolfan Storey Arms ar gefnffordd yr A470 yn Storey Arms, Powys.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder 30 mya dros dro ar y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o bwynt 800 metr i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r A4059 hyd at bwynt 600 metr i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r fynedfa orllewinol i Ganolfan Storey Arms. Bydd y cyfyngiad yn weithredol yn ôl yr angen yn ystod digwyddiadau a chyfnodau o niferoedd o ymwelwyr uchel yn y lleoliad hwn.

Disgwylir y daw'r Gorchymyn i rym yn gyntaf ar 6 Ebrill 2019 ac y bydd yn weithredol yn ysbeidiol am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchymynion Traffig Dros Dro/ 2019).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

MRS C J McCARTHY
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A470 TRUNK ROAD (STOREY ARMS,
POWYS) (TEMPORARY PART-TIME 30 MPH
SPEED LIMIT) ORDER 2019**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary due to the likelihood of danger to the public near the Storey Arms Centre on the A470 trunk road at Storey Arms, Powys.

The effect of the Order is to temporarily impose a part-time 30 mph speed limit on the length of the A470 trunk road that extends from a point 800 metres north of the centre-point of its junction with the A4059 to a point 600 metres west of the centre-point of its junction with the western access to the Storey Arms Centre. The temporary restriction will operate as and when required during events and periods of high visitor numbers at this location.

The Order is expected to first come in to force on 6 April 2019 and operate intermittently for a maximum duration of 18 months.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2019).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

MRS C J McCARTHY
Transport
Welsh Government